Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y penderfyniad:**

26 Hydref 2021

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

26 Hydref 2021

**Penderfyniad:**

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2021-2022

Cytuno ar gynnwys a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro 2021 i 2022 Cyngor Sir Ddinbych mewn cysylltiad â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Bwriad y penderfyniad:**

Ceisio cymeradwyaeth i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Interim hwn gyda'r nod o ymchwilio'n drylwyr i heriau cydraddoldeb wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Cyn 2017 roedd Cyngor Sir Ddinbych yn cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wahân. Fodd bynnag yn 2017 cafodd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Lles (o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) eu hintegreiddio i ffurfio ein Cynllun Corfforaethol. Gan y bydd ein Cynllun Corfforaethol yn cael ei adnewyddu yn 2022, bydd cyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi dirwyn i ben.

Ym mis Chwefror 2020 ysgrifennodd Cyngor Sir Ddinbych at y Comisiynydd

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn egluro pam bod ymagwedd integredig mor fuddiol ac yn gofyn am gael ein heithrio rhag cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol annibynnol er mwyn canolbwyntio ar gynhyrchu ein Cynllun Corfforaethol (unwaith eto'n integreiddio Amcanion Cydraddoldeb gydag Amcanion Lles). Yn amgaeedig fe welwch ffeil o'r enw 'Letter to Ruth Coombs'.

Ym mis Rhagfyr 2020 cafwyd ateb gan y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau dynol yn egluro nad oes yn rhaid i ni gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb erbyn mis Hydref 2020 ond y gallant fod yn 'Amcanion cydraddoldeb Interim'. Gweler y ffeil atodedig o'r enw 'Denbighshire 18.02.21'.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, argymhellir bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Interim hwn.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Cynghorwyr Richard Mainon a Hugh Evans ac Aelodau'r Cabinet.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Interim wedi'i anfon at aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Mae Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau) yn cytuno â chynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Interim.

Mae Gary Williams (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd) wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r penderfyniad dirprwyedig.

| |
|---|
| Steve Gadd (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Asedau) wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r penderfyniad dirprwyedig. |

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

| |
|---|
| Gweler y Cynllun Dirprwyo. |